Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.

This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.

**WGDB_24-25 46 : Ymateb gan: Chwaraeon Cymru | Response from: Sports Wales**

---

# Y Pwyllgor Cyllid – Ymateb Chwaraeon Cymru

sportwales
chwaraeoncymru

# 1. Ymateb Chwaraeon Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gyllideb ddrafft 24/25:

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefel gymunedol ac elitaidd. Rydym yn cael ein hariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'n gweithgareddau ein hunain. Ni yw'r prif gynghorydd ar faterion chwaraeon i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gyfrifol am ddosbarthu arian y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Chwaraeon Cymru yw un o'r cyrff cyhoeddus lleiaf yng Nghymru ac mae ein cyllideb yn cynnwys costau rhedeg, cyllid grant ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol i ddarparu chwaraeon, ond hefyd chwaraeon cymunedol – gan fuddsoddi a chynyddu cyfleoedd lleol i glybiau a chymdeithasau wasanaethu anghenion eu cymunedau lleol.

Rydym yn un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); rydym yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg ac yn teimlo bod ein lle yng nghymdeithas a diwylliant Cymru yn hynod bwysig. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant ac yn cyflwyno ein holl waith drwy lens cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod a rhoi'r gorau y gallwn ei gynnig i bawb ar hyd y llwybr chwaraeon, o blant sy'n dechrau arni i athletwyr sy'n ennill medalau, i lwybr gyrfa amrywiol yn y sector chwaraeon, i bobl hŷn yn cadw'n heini, yn iach ac yn annibynnol.

# Ymateb

Mae Chwaraeon Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft. Rydym yn sylweddoli bod **heriau economaidd** clir (**e.e. costau byw, tlodi cynyddol ac anghydraddoldeb**) yn effeithio ar y boblogaeth – fodd bynnag, mae cyfranogiad mewn chwaraeon eisoes wedi'i ystumio'n sylweddol yn erbyn anghydraddoldeb ac incwm isel, felly mae perygl y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu fwy fyth pe byddai gostyngiad yng nghyllideb Chwaraeon Cymru.

Mae'r ystadegau diweddar o Draciwr Gweithgarwch Cymru yn dangos yr effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol, fel y ffaith bod 40% o'r ymatebwyr i'r arolwg cynrychioliadol hwn yn cytuno bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i fod yn actif. Pobl dan 55 oed, merched a rhieni sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a naill ai angen newid i weithgareddau rhatach neu am ddim, neu ddod yn llai actif.

Yn yr ymateb hwn rydym wedi canolbwyntio ar ateb cwestiynau penodol sy'n berthnasol i ni ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn bwydo sylwadau pellach i'r Pwyllgor Cyfathrebu, Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar yr amser priodol.

1. ***Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2023-2024 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid yn ymwneud ag adfer wedi'r pandemig? A yw polisïau cefnogi busnesau Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2024-25***

Cafodd y pandemig effaith uniongyrchol ar chwaraeon, gyda llawer o glybiau'n annhebygol o fod wedi gallu parhau heb y cymorth a gawsant drwy elfen gefnogi Cronfa Cymru Actif a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyllid a neilltuwyd wedyn hefyd i'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden yn hanfodol i oroesiad llawer o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru. Erbyn cyllideb 2023-24, roedd y sector mewn sefyllfa gref, eisoes yn adfer, ond mae'n amlwg bod cyfleusterau hamdden (elfen nad yw Chwaraeon Cymru yn gyfrifol amdani) wedi cael eu heffeithio'n fawr gan y pandemig drwy aelodaeth, newid mewn arferion a gweithlu. Ymchwiliwyd i hyn yn yr ymchwiliad diweddar i Lyfrgelloedd a Gwasanaethau Hamdden a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Croesawyd y cymorth ariannol gyda chostau byw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector chwaraeon yn 2022-23 a 2023-24. Drwy ein perthynas â sefydliadau partner, rydym wedi nodi bod yr heriau hyn yn parhau ond, mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at fwy o arloesi a chydweithredu ar draws gwahanol gyrff.

2. ***Sut dylai / gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnes yn dilyn y pandemig, Brexit a chwyddiant a phwysau economaidd arall? Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, sut bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion a gynlluniwyd, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol?***

Roedd newid Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllidebau tair blynedd dangosol i'w groesawu ac yn amlwg mae'n rhoi mwy o gyfle i sefydliadau gynllunio ymhellach ymlaen. Yng nghyd-destun y gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023, roedd Chwaraeon Cymru wedi paratoi'n ariannol ac wedi cynllunio ein gweithgareddau yn unol â hynny. Daw'r her i'r amlwg os bydd gostyngiadau sylweddol yn y cyllidebau hyn, yn enwedig yng nghyd-destun y lefelau uchel parhaus o chwyddiant. Byddem yn croesawu cyhoeddi cyllidebau dangosol treigl tair blynedd i gynorthwyo gyda chynllunio. 2024/25 yw blwyddyn olaf y gyllideb 3 blynedd ddangosol sydd wedi'i chyhoeddi, a hoffem weld cyllideb 3 blynedd ddangosol wedi'i diweddaru a chylchol gan nad yw cyllidebau blynyddol yn ddefnyddiol ac maent yn rhwystro cynllunio.

Fel llawer o gyrff cyhoeddus llai, mae gan Chwaraeon Cymru gyfran isel o gostau newidiol/dewisol ac mae'n ymgymryd â gweithgareddau dyfarnu grantiau sylweddol. O ganlyniad, mae ein gallu i leihau'r sylfaen gost yn gyfyngedig. Mae her chwyddiant (cyflog ac arall) yn parhau i'n sefydliad a'n staff hefyd.

Mewn senario o ostyngiad yn y gyllideb, byddai hyn yn ddieithriad yn golygu effaith ar y gwasanaethau effeithiol i bobl Cymru. Mae ein strategaeth wedi'i seilio ar y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru https://visionforsport.wales/, a bydd ein hamcanion i weld pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, heb ystyried eu cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, oedran neu allu yn cael eu heffeithio yn ddieithriad. Mae'r Weledigaeth, a'n strategaeth, yn cydnabod bod bod yn actif yn rheolaidd yn gonglfaen i fywyd iach, a dylai pawb fod â'r gallu i fod yn actif.

Mae senario gostyngiad yn y gyllideb yn peryglu'r cynnydd rydym wedi'i wneud drwy newidiadau i'n model buddsoddi. Mae'r model hwn yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn meysydd o angen ac yn canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a

chynhwysiant. Mae risgiau posibl hefyd i gynaliadwyedd ariannol partneriaid darparu allweddol a gwerthfawr yn y sector chwaraeon.

Gyda llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth, mae'n debygol na fydd yn bosibl cyflawni rhai pethau y mae arnom eu hangen, ac mae ansicrwydd yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 a thu hwnt yn golygu na allwn gynllunio mor gadarn ag y byddem wedi gallu ei wneud fel arall o bosibl.

Rydym yn credu bod gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol ran hollbwysig i'w chwarae o ran gwella iechyd pobl Cymru. Mae myrdd o astudiaethau wedi dangos yr effaith gadarnhaol y gall chwaraeon ei chael ar les corfforol a meddyliol pobl ac, er ein bod yn falch o weld y gyllideb iechyd yn cael ei diogelu a'i chynyddu, rydym yn awyddus i weld dull unedig o weithredu i sicrhau nad yw'r sector iechyd dim ond yn gwario mwy a mwy i gadw ar ben salwch, ond hefyd sicrhau bod ei gyllideb yn cael ei defnyddio'n effeithiol fel adnodd ataliol ac i atal bod angen ei wasanaethau yn y dyfodol.

Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn faes polisi allweddol sydd, o gymharu, yn rhan fechan iawn o'r gyllideb iechyd. Rydym yn credu bod buddsoddi i weld iechyd yn cael ei flaenoriaethu yn hollbwysig i iechyd hirdymor poblogaeth Cymru, mae unrhyw beth arall o ganlyniad i ostyngiadau mewn cymorth ariannol yn economi ffug.

Mae'r prif ffigurau o'n ffigurau elw cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) diweddaraf, sydd i'w cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023, yn dangos yr effaith sylweddol y mae chwaraeon yn ei chael mewn sawl maes:

- Mae cyfanswm cyfraniad chwaraeon at iechyd yn £621m.
- Mae cyfraniad chwaraeon at les goddrychol yn £2.06bn.
- Mae cyfraniad chwaraeon at gyfalaf cymdeithasol yn £2.87bn.
- Mae cyfraniad chwaraeon at wirfoddoli yn £430m.

Mae cyfanswm cyfraniad chwaraeon fel elw cymdeithasol (heb gyfrif allbynnau economaidd fel gwariant a chreu swyddi) i Gymru bob blwyddyn yn £5.98bn. Felly, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon mae elw o £4.44 i'r economi.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon, mae Chwaraeon Cymru yn pryderu am effaith hirdymor unrhyw ostyngiad yn y gyllideb ar iechyd a lles poblogaeth Cymru a'r effaith gyfatebol ar wasanaethau iechyd. Yn yr un modd, yn y tymor byr, gall llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon gael effaith niweidiol gyfatebol ar salwch (meddwl a chorfforol) ac anghydraddoldeb.

Rydyn ni eisiau gweld y defnydd gorau posib o chwaraeon ar draws meysydd portffolio'r Llywodraeth, a'r budd unigryw y gall chwaraeon ei gynnig wrth gyflawni dros Gymru yn cael ei ddeall a'i adlewyrchu yn y gyllideb. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod gallu chwaraeon i ddiogelu adnoddau prin y gwasanaeth iechyd o ran adnodd atal ac adnodd adfer a chryfhau yn cael ei wireddu a'i ddefnyddio gan y gwasanaeth iechyd a'r Llywodraeth.

3. ***Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a phroblemau costau byw? - Sut dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig ac wrth gefnogi economïau yn y cymunedau hynny?***

Yn Chwaraeon Cymru rydym yn cydnabod bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn profi anfantais mewn sawl ffordd. Iddynt hwy nid mater o ddiffyg arian neu ddillad yn unig yw tlodi; mae mynediad i chwarae a hamdden, prydau bwyd cytbwys rheolaidd, mynediad at wasanaethau a chefnogaeth i gyd yn feysydd lle maent yn wynebu anfantais bosibl. Dyma sut mae tlodi yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, canlyniadau'r materion hyn yw bod tlodi plant yn cyfyngu ar ddyhead, yn cyfyngu ar brofiad bywyd ac yn arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn profi canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol a rhagolygon economaidd gwaeth na'u cyfoedion mwy cefnog. Rydym yn gwybod hefyd eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ymhlith plant a phobl ifanc yn hollbwysig nid yn unig i'w cyfle eu hunain i wneud y gorau o'u bywydau ond hefyd o ran yr hyn y gallant ei gyfrannu at y gymdeithas ehangach fel oedolion.

Yn unol â strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd, rydym wrthi'n llunio ein hymateb newydd i dlodi plant a fydd yn ceisio datblygu ein gwaith ymhellach i sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, dim ots beth yw eu cefndir economaidd.

Rydym yn credu bod angen i chwaraeon fel sector gael ei gydnabod am y rôl hollbwysig y gall ei chwarae ar draws meysydd polisi, a bod angen i chwaraeon ddod yn rhan reolaidd o'r sgwrs wrth gyflawni canlyniadau iechyd ac addysg yn ogystal â bod yn rhan o'r drafodaeth wrth edrych ar atebion cadarnhaol i broblemau trafnidiaeth a gweld cyfleusterau cymunedol ar agor ac ar gael i bawb.

Er bod y dadleuon hyn yn cael eu cydnabod ar draws y Llywodraeth, mae chwaraeon yn parhau i gynrychioli swm mor fechan o gyllideb y Llywodraeth. Pe cytunid ar gydweithredu a chanlyniadau sy'n defnyddio chwaraeon, efallai y byddem yn gweld llawer mwy o elw ar fuddsoddiad yn lles pobl Cymru.

O ran heriau economaidd-gymdeithasol, yr argyfwng costau byw ac anghydraddoldebau cynyddol, mae Chwaraeon Cymru wedi addasu ffrydiau buddsoddi i ganolbwyntio ar y meysydd hyn, er enghraifft y grant arbed ynni diweddar https://www.sport.wales/grants-and-funding/energy-saving-grant/ oedd yn cynnig cyfle unigryw i glybiau chwaraeon yng Nghymru wneud gwelliannau arbed ynni a hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Mae cronfa Cymru Actif https://www.sport.wales/grants-and-funding/beactivewalesfund/ yn hyrwyddo cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac arloesi mewn chwaraeon ac, yn ogystal, mae ein ffrwd Crowdfunder https://www.sport.wales/grants-and-funding/crowdfunder/ sydd wedi targedu gwaith o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cynyddol, gyda 50% o brosiect yn gallu cael cyllid cyfatebol os yw wedi'i leoli yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, fel y nodir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

4. ***A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol? A ydych chi'n meddwl bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn***?

Mae buddsoddiad wedi'i dargedu'n briodol at brosiectau seilwaith ac ynni hyd yma. O ystyried bod mwyafrif yr allyriadau yn gysylltiedig â chaffael (ac yn cael eu hasesu ar sail

gwariant), byddai cymorth wedi'i dargedu i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn cael ei groesawu hefyd.

Mae dyheadau i weithio gyda chyflenwyr lleol ond bwlch sylweddol o ran gwybodaeth a chapasiti ymhlith cyflenwyr llai o ran sut i nodi'r allyriadau carbon gwirioneddol. Mae llawer o gyfleoedd i gyfoethogi gwybodaeth yn y maes hwn – heb os, mae gan Cyd (y Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Caffael https://cyd.cymru/) rôl arwyddocaol i'w chwarae yn hyn o beth.

5. ***A yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi ynghylch benthyca a threthiant yn effeithiol?***

***Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw sylwadau am y cwestiwn hwn.***

6. **Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. Oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol ar unrhyw un o'r meysydd a nodir isod?**

− Oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?

− Sut gallai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?

− A yw dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli mewn dyraniadau adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar).

− Sut dylai Llywodraeth Cymru esbonio ei phenderfyniadau ariannu, gan gynnwys sut mae ei gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?

− Sut gellir gwella'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft?

− Sut dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG wedi'u cynllunio a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys. A ydych yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?

− A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth digonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar drwy bethau fel cynllunio'r gweithlu.

− A fu buddsoddiad digonol gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus.

− A oes digon o fuddsoddiad mewn seilwaith wedi'i dargedu at bobl ifanc?

− Sut mae tystiolaeth a data yn sail i'r gwaith o bennu blaenoriaethau a dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru, ac a yw'r dull hwn o weithredu yn glir?

– A yw'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?

– Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Rydym yn credu bod angen edrych ar gyllidebau yn y tymor hwy, yn debyg i wledydd eraill gan gynnwys Seland Newydd, gyda mwy o ffocws ar atal. Mae'n glir y gall chwaraeon chwarae rhan arwyddocaol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau croestoriadol, gan gynnwys iechyd a lles (corfforol a meddyliol), anghydraddoldebau, lleihau carbon ac addysg.

Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd cydbwyso gwariant ataliol gyda gwariant adweithiol. Rydym yn credu bod cyfran y GIG o'r gyllideb wedi tyfu i lefel a allai beryglu gwaith pwysig mewn meysydd eraill, gan gynnwys atal. Rydym yn teimlo bod cyfle hefyd i herio ac eirioli ar draws dulliau cydweithredol yn y sector cyhoeddus. Mae agendâu cyllideb a pholisi yn parhau i gael eu rhannu'n adrannau, er enghraifft chwaraeon, iechyd ac addysg.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn annog penderfyniadau tymor hwy gydag atal mewn golwg, ond nid yw dyraniad y gyllideb yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon.

Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi cydnabod y gall chwaraeon fod yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol yn y wlad[1]. Mae ein gwaith elw cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) diweddar ni a gynhyrchwyd gan yr Athro Larissa Davies o Brifysgol Sheffield Hallam yn cefnogi'r ddadl y gall chwaraeon wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol tuag at iechyd pobl Cymru a'r economi ehangach.

Heb gyfrif allbynnau economaidd fel gwariant a chreu swyddi, mae chwaraeon yn cyfrannu £5.98bn bob blwyddyn at yr economi drwy ei effaith gymdeithasol; am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon, ceir elw o £4.44. Ffordd arall o feddwl am hyn yw bod tua 3.1 miliwn o bobl yng Nghymru ac mae chwaraeon yn cynnig budd sy'n werth £1,929 y flwyddyn (h.y. 5,980 miliwn / 3.1 miliwn) neu £161 y mis i bob person. Cyfraniad sylweddol at gostau byw. Wrth gwrs, mae'n llawer cymhlethach na hyn, ond ar gyfartaledd mae'n dangos bod buddsoddi i gael pobl i symud yn talu ar ei ganfed.

Drwy flaenoriaethau ein cynllun busnes, rydym yn tynnu sylw at yr effaith y gall chwaraeon ei chael ar draws sectorau niferus, gan gynnwys Iechyd ac Addysg. Yn aml, mae diffyg cydnabyddiaeth o'r cyfle i chwaraeon gyfrannu at feysydd polisi amrywiol fel iechyd ac mae hyn yn dangos bod angen eiriol dros gydweithredu traws-lywodraethol ac asiantaethau er mwyn sicrhau bod posib gwireddu gwir fanteision chwaraeon.

Yn yr Alban cafwyd ymrwymiad gan y blaid lywodraethol yn 2021 i ddyblu'r gyllideb ar gyfer chwaraeon dros gyfnod y senedd. Roedd ymgyrch glir hefyd i gynyddu cyfranogiad ymhlith merched a genethod – gyda data diweddaraf Traciwr Gweithgarwch Cymru yn dangos sut mae ymatebwyr benywaidd yn sylweddol fwy

---

[1] Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/ministers-written-evidence-to-senedd-scrutiny-committees-2022-2023.pdf

tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o fod heb wneud unrhyw weithgarwch corfforol (23% o gymharu â 13%).

Byddem yn croesawu’r math yma o ymrwymiad yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae ein canlyniadau SROI diweddaraf yn dangos yn glir bod chwaraeon yng Nghymru yn cynhyrchu gwerth sylweddol i gymdeithas ar draws sawl nod llesiant, gan gynnwys Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. Mae’r SROI hefyd yn dangos bod y gwerth a gynhyrchir gan chwaraeon yng Nghymru yn fwy na chost darparu’r cyfleoedd hynny o gryn dipyn, gan awgrymu bod buddsoddi yn y sector nid yn unig yn cyfrannu at les unigolion a chymdeithas, ond ei fod hefyd yn llesol i’r economi.

Mae gan chwaraeon fanteision i iechyd y boblogaeth ond, yn fwy na hyn, mae'r rhai ag iechyd da yn tueddu i gymryd rhan yn amlach mewn chwaraeon. Mae hyn yn bwysig wrth i bobl fynd drwy wahanol gyfnodau mewn bywyd a thrawsnewid, ac mae mabwysiadu’r arfer o fod yn gorfforol actif drwy gydol eu bywydau yn helpu i sicrhau eu bod mor iach â phosibl drwy gydol eu hoes.

- Yng Nghymru mae 39% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, ac mae hyn yn cynyddu i 46% ar gyfer oedolion sydd ag iechyd da neu dda iawn. Mae gan 86% o oedolion sy’n cymryd rhan yn llai aml iechyd gwael neu wael iawn (NSW 2022-23).

- Dangoswyd bod cysylltiad cadarnhaol rhwng cyfranogiad mewn chwaraeon a nifer o ymddygiadau ffordd o fyw iach – mae’r rhain yn cynnwys peidio ag ysmygu, bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau / llysiau bob dydd, cynnal pwysau / BMI iach, a bod yn gorfforol actif am o leiaf 150 munud (NSW 2016-17; NSW 2018-19).

# Pwyntiau Cryno Allweddol

- Rydym yn credu y dylid manteisio i'r eithaf ar chwaraeon ar draws meysydd portffolio'r Llywodraeth, a bod y budd unigryw y gall chwaraeon ei gynnig wrth gyflawni dros Gymru yn cael ei ddeall a'i gydnabod yn y gyllideb.

- Rydym yn dymuno gweld cyllidebau atal iechyd yn ystyried chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel dull o gyflawni eu canlyniadau a phwlio cyllidebau lle mae eraill mewn gwell sefyllfa i gyflwyno gweithgarwch.

- Rydym yn credu bod angen golwg hirdymor barhaus ar gyllidebu gyda mwy o ffocws ar atal.